**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 26.02.20**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Gerallt Jones,.

**PRESENNOL**
Cyng. Russell Sharp (Is Gadeirydd), David J. Roberts, Robert G. Owen, Dylan Hughes, Mair Thomas, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr 8ed 2020 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**
Adroddwyd bod £18,000.58 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £4,793.32 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn yn bennaf oherwydd na ddim ond £905 o wariant oedd wedi bod gyda'r fynwent (£1,250 wedi ei glustnodi), £420 o wariant oedd wedi bod hefo torri gwair y llwybrau cyhoeddus (£1,200 wedi ei glustnodi), nid oedd dim gwariant wedi bod hefo cynnal a chadw (£1,000 wedi ei glustnodi), ddim ond gwariant o £75 mewn cyfraniadau (£500 wedi ei glustnodi), ddim ond gwariant o £17 oedd wedi cael ei wneud dan amrywiol (£833 wedi ei glustnodi), nid oedd cyfraniad wedi cael ei roi i'r neuadd (£500 wedi ei glustnodi).

**Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg**
Adroddodd y Clerc ei bod bydd adroddiad ynglyn ar llinellau uchod yn mynd o flaen pwyllgor cynllunio y Sir rhyw dro yn mis Ebrill.

**Torri Gwair**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoi hysbyseb yn Llais Ardudwy yn gwhodd tenderau i dorri gwair y llwybrau cyhoeddus yn yr ardal am eleni ond yn anffodus nid oedd neb wedi dangos diddordeb. Cytunwyd anfon llythyr i Mr. Eifion Roberts yn gofyn a fyddai yn fodlon eu torri eto eleni. Hefyd cafwyd wybod bod Mr. Arwel Thomas yn fodlon parhau i dorri gwair y fynwent am yr un pris a llynedd sef £270 y torriad.

**Pwyllgor Neuadd – 19.02.20**
Adroddodd y Cyng. Robert G. Owen ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod ac adroddodd fel a ganlyn – bod y sefyllfa ariannol yn dderbyniol, bod y pwyllgor yn bwriadau cael prisiau i beintio tu allan i'r neuadd yn y dyfodol agos a bod yr hen offer chwarae i gyd wedi cael ei dynnu allan o'r cae chwarae. Hefyd adroddodd y Cyng. Owen bod Ms Rosy Berry wedi trafod y mater o Llanfair yn ei blodau ond bod gan yr aelodau ddim ddiddordeb yn y mater. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Ms Berry ynglyn ar mater hwn ag ei bod yn awgrymu byddai y pentref yn edrych yn well os y byddai yn bosib cael lloches bws yn ganol y pentref a tacluso y darn tir ar ochor y ffordd oedd yn honi oedd dan berchnogaeth y Cyngor Cymuned. Cytunwyd bod ddim diddordeb gan y Cyngor yn y mater hwn a datgan wrth Ms Berry bod gan y Cyngor ddim cyllideb tuag at archebu lloches bws ag hefyd eisiau datgan mae Cyngor Gwynedd oedd berchen y tir ar ochor y ffordd.

**Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd uchod ar yr 16eg o mis diwethaf ar ran y Cyngor ac adroddodd fel a ganlyn - 'Roedd Mr. Rob Walker, aelod newydd o'r Bwrdd yn cadeirio'r cyfarfod a cafwyd wybod bod arolwg wedi ei rhoi allan a bod 48 wedi eu llenwi a bod y sylwadau wedi eu gwneud ynglyn a'r oriau agor a bydd hyn yn cael sylw. Mewn ymateb i ddau ymholiad deallir fod 22% o'r incwm yn dod gan y Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd a bod Mr. Chris Hulse yn helpu hefo'r cyfrifon tan ddiwedd Rhagfyr eleni. Gobeithir gallu gweithio tuag at gynyddu'r incwm, lleihau costau annisgwyl a bod yn llai dibynnol. Mae £650 y mis yn cael ei dalu i Gyngor Gwynedd i glirio'r ddyled drydan. Mae Ms Jodie Pritchard yn dal i weithio ar gael rhagor o grantiau a mae'r

bingo a nosweithiau eraill yn dod ag arian i mewn yn rheolaidd. Cynhaliwyd diwrnod agored llwyddiannus ar y 26ain o Ionawr. Cafwyd wybod ymhellach gan Mr. Dylan Hughes, un o Gyfarwyddwyr y ganolfan bod Ms Samantha Cooper wedi cael ei apwyntio i ddelio gyda'r ochor incwm yn lle Mr. Chris Hulse, a bod Mr. Michael Rowe o Rhiw, Penllyn wedi cael ei apwyntio fel Rheolwr Rhan Amser y ganolfan. Hefyd cafwyd wybod ganddo eu bod wedi bod yn llwyddiannus i ddenu dwy grant arall sef grant £10,000 gan y loteri fawr tuag at y ffenestri a grant o £1,200 tuag at dacluso y coed ar yr ochor. Bydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal ar yr 19eg o Fawrth.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £3,536.84 yn y cyfrif rhedegol, a £5,515.53 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**
Mrs W. Wigglesworth - £35.00 – bin brown y fynwent
Mrs Annwen Hughes - £640.57 – cyflog 3 mis (£380) a costau am y flwyddyn (£260.57)

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**
Mr. M. Downey - £40.00 - rhent cwt yr hers (Chwefror)

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Ambiwlans Awyr Cymru - £150.00
CFFI Meirionnydd – Dim

Adroddodd y Trysorydd ymhellach ei bod wedi gofyn i Ms Luned Fon Jones o Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd a fyddai yn fodlon gweithredu fel Archwiliwr Mewno y Cyngor eto eleni ag ei bod wedi cytuno i hyn. Cytunodd yr Aelodau i hyn ag hefyd cytunwyd bod y Clerc yn anfon llythyr o apwyntiad iddi.

**GOHEBIAETH**
**Ambiwlans Awyr Cymru**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn am gymorth ariannol er mwyn eu galluogi i ehanu eu gwasanaeth i gael newid o hedfan 12 awr y dydd i un o 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos. Cytunwyd i roi £150 iddynt.

**CFFI Meirionnydd**
Wedi derbyn llythyr gan y Mudiad uchod ynghyd a taflen banc yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd i beidio rhoi dim iddynt am eleni.

**UNRHYW FATER ARALL**
Cafwyd wybod bod Mr. Hywel Jones wedi tynnu yr hen hysbysfwrdd a oedd ar ochor y lloches bws ger groesffordd Caersalem a cytunwyd bod y safle yn edrych yn well hebddo.
Cafwyd wybod bod yr hysbysfwrdd yn maes parcio Y Maes, Llandanwg angen sylw oherwydd bod y drws wedi cael ei ddifrodi yn y stormydd diweddar. Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ar Cyng. Robert G. Owen eu bod wedi cael golwg arno a cytunodd y Cyng. Owen y byddai yn trafod gyda Mr. Hywel Jones i weld beth gall ei wneud i'w adfer.
Cytunodd y Clerc holi y cwmni i weld a fyddai yn bosib archebu drws newydd.
Eisiau tynnu sylw yr Adran Priffyrdd bod eiddew a coed wedi gor-dyfu dros y wal i'r llwybr ger Castellfryn.
Cafwyd wybod bod yr hysbysfwrdd ger yr Eglwys angen sylw a cytunwyd gofyn i Mr. Hywel Jones gael golwg arno.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Ebrill 8ed 2020 am 7.30 o'r gloch**

**ARWYDDWYD**..........................................................Cadeirydd

**DYDDIAD**..........................................................